| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 08/07/21 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 06/12/21 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Adfywio a Chynllunio |
| **Maes Gwaith:** | Adfywio Cymunedol |
| **Manylion Cyswllt:** | 07808203659<br>AdfywioCymunedol@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Rhaglen yr Academi |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro pa ddata y bydd tîm Rhaglen Academi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ei gasglu, a sut y byddan nhw'n ei ddefnyddio. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

**Categorïau o ddata personol a geir**

Os cawsoch chi eich cyfeirio at y Rhaglen Academi, bydden nhw wedi derbyn yr wybodaeth ganlynol amdanoch chi:

- Enw a manylion cyswllt
- Hanes cyflogaeth
- Hanes Budd-daliadau

**Ffynhonnell y data personol**

Rhannwyd yr wybodaeth hon gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan sefydliad arall fel y manylir isod:

Rydyn ni'n derbyn gwybodaeth gan sefydliadau fel cyrff llywodraethu, asiantaethau cyflogaeth a phartneriaid allanol eraill gan gynnwys Gyrfaoedd Cymru, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Remploy, Cymru'n Gweithio a Llamau a fyddai wedi ceisio'ch cytundeb i wneud yr atgyfeiriad. Efallai y byddwn ni hefyd yn derbyn gwybodaeth o ffynonellau mewnol fel Gwasanaethau Cymdeithasol neu raglenni fel Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith+.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**
Rôl yr Academi yw darparu cymorth i gyfranogwyr sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd neu'n ceisio a/neu'n ymgymryd â phrofiad gwaith o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili neu gyflogwyr cysylltiedig, i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus. Rydyn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol at y dibenion canlynol:

- I sicrhau cymhwysedd ar gyfer y rhaglen
- I ddarparu cymorthth wedi'i theilwra o gynllun gweithredu y cytunwyd arno
- I gadw mewn cysylltiad â'r cyfranogwr
- I weithredu ar ran cyfranogwyr pan fo angen gyda chaniatâd cyfranogwyr
- I fonitro cynnydd ac olrhain canlyniadau gan gynnwys canlyniadau cyflogaeth a chanlyniadau cymwysterau
- I rannu straeon newyddion da i helpu i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau rhaglenni cyflogaeth (Bydd eich gwybodaeth yn aros yn anhysbys)
- I roi gwybod am ganlyniadau at ddibenion cyllido, a chynllunio a datblygu polisïau ar gyfer cynaliadwyedd y rhaglen yn y dyfodol

Ein prif bwrpas ar gyfer casglu gwybodaeth yw sicrhau cymhwysedd ar gyfer y prosiect ac hefyd sicrhau manylion cywir i gefnogi orau yr unigolyn  y mae'r data yn berthnasol iddo.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae rhwymedigaeth tasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth a nodir isod:

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

(1)(e) - processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig', sy'n cynnwys gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu feddyliol. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

(2)(g) -  processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;

Mae'r amod uchod hefyd angen amod ychwanegol o Ddeddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2

6 (1) This condition is met if the processing—
(a) is necessary for a purpose listed in sub-paragraph (2), and
(b) is necessary for reasons of substantial public interest.
(2) Y dibenion hynny yw—
(a) the exercise of a function conferred on a person by an enactment or rule of law;
(b) the exercise of a function of the Crown, a Minister of the Crown or a government department..

Nodir y deddfiadau neu'r rheolau cyfraith sy'n berthnasol i'r amod uchod yn:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Atal Digartrefedd - Tai (Cymru)2014

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

1(1)This condition is met if—

> (a)the processing is necessary for the purposes of performing or exercising obligations or rights which are imposed or conferred by law on the controller or the data subject in connection with employment, social security or social protection, and
>
> (b)when the processing is carried out, the controller has an appropriate policy document in place (see paragraph 39 in Part 4 of this Schedule).

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.  Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Adfywio Cymunedol

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Ffurflen atgyfeirio/ymgeisio gychwynnol i'w chyflwyno i'r adran berthnasol wrth wneud cais am y profiad gwaith/lleoliad perthnasol. Gellid gwneud atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol i adrannau mewnol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Gofalu am Gaerffili, Cefnogi Pobl, Tai a Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Ffurflen atgyfeirio gychwynnol neu ffurflen gais cwmni i'w chyflwyno i'r cwmni perthnasol wrth wneud cais am y profiad gwaith / lleoliad perthnasol. Gellid gwneud atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol i gwmnïau neu sefydliadau allanol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Cymru’n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau iechyd meddwl, cymdeithasau tai ac ati.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Unwaith y bydd eich ffeil ar gau byddwn ni'n cadw'ch cofnodion am 7 mlynedd.

## Marchnata

**Manylion am y marchnata**

Rydych wedi cydsynio i'ch manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata. Byddwch / Rydych wedi cael manylion y marchnata y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn hoffi ei wneud, ynghyd ag unrhyw opsiynau megis sut yr hoffech i ni gysylltu â chi. Gallwch dynnu'ch caniatâd i farchnata ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r Man Gwasanaeth drwy dderfnyddio'r manylion ar frig y ffurflen hon

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - Mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan:Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Rôl yr Academi yw darparu cymorth i gyfranogwyr sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd neu'n ceisio a/neu'n ymgymryd â phrofiad gwaith yn y Fwrdeistref Sirol neu gyflogwyr cysylltiedig, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus. Ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu eich data yw Tasg Gyhoeddus. Unwaith y bydd eich ffeil ar gau byddwn ni'n cadw'ch cofnodion am 7 mlynedd. Gellid gwneud atgyfeiriadau a rhannu data ychwanegol i gwmnïau neu sefydliadau allanol eraill yn seiliedig ar anghenion a gofynion unigolion gan gynnwys Cymru'n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaethau iechyd meddwl, cymdeithasau tai ac ati.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}